# Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**:<br><br>Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | |
| **Dyddiad**: | |
| **Arweinydd polisi**: | |
| **Manylion cyswllt:** | |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**

Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

| **Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:** |
|---|
| Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn ymwneud â darpariaethau Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) ("y Bil Drafft"), a gyhoeddwyd yn hydref 2015 ynghyd â dogfen ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r ddogfen ymgynghori'n ystyried yr agweddau ymarferol ar weithredu darpariaethau'r Bil Drafft.<br><br>Mae'r Bil Drafft yn rhan o'r Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol, sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol: mwy cynhwysol, mwy atebol ac yn rhannu grym a chyfrifoldeb â chymunedau.<br><br>Mae'r Bil Drafft yn cynnig amrywiaeth fawr o ddiwygiadau sylfaenol i Lywodraeth Leol er mwyn sicrhau perfformiad cryf, democratiaeth gadarn, llywodraethu da a chyflawni ar gyfer cymunedau. Byddai'r diwygiadau hyn yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol a phobl Cymru, ac maent wedi cael eu datblygu trwy dri Phapur Gwyn.<br><br>Roedd y Papur Gwyn cyntaf, *Diwygio Llywodraeth Leol,* yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Llywodraeth Leol. Cynigiodd ddiwygio mawr trwy ddau ddarn o ddeddfwriaeth. Mae'r Bil cyntaf, Bil Llywodraeth Leol (Cymru), yn sefydlu paratoadau ar gyfer rhaglen o uno a diwygio Llywodraeth Leol, megis sefydlu Pwyllgorau Pontio. Cyflwynwyd y Bil hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr 2015.<br><br>Lansiwyd yr ail Bapur Gwyn, *Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus*, ym mis Hydref 2014. Cynigiodd sefydlu Comisiwn Staff i ddatblygu a lledaenu arferion da o ran trefniadau'r gweithlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Sefydlwyd y Comisiwn Staff ar sail anstatudol yn hydref 2015.<br><br>Cyhoeddwyd y trydydd Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol,* ym mis Chwefror 2015. Roedd yn canolbwyntio ar ailgynllunio trefniadau mewnol Awdurdodau Lleol er mwyn ategu a chefnogi'r diwygio strwythurol a nodwyd yn y Papur Gwyn cyntaf, *Diwygio Llywodraeth Leol*. Cynigiodd amrywiaeth o ddiwygiadau sylfaenol er mwyn sicrhau perfformiad cryf, democratiaeth gadarn, llywodraethu da a chyflawni ar gyfer cymunedau. Y rhain, ynghyd â'r darpariaethau ar gyfer uno Awdurdodau Lleol, yw sail yr ail Fil, sef y Bil Drafft hwn.<br><br>Bwriedir i Fil wedi'i seilio ar y Bil Drafft a'r ddogfen ymgynghori gysylltiedig gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Bydd rhagor o Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cael eu cyhoeddi ar yr adeg honno.<br><br>Yn dilyn y diwygiadau hyn, ystyrir cynnal adolygiad o'r system ariannu Llywodraeth Leol, a fyddai'n arwain at ragor o ddeddfwriaeth ar wahân. |
| **CAM 1: CYNLLUNIO** |
| **Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?** |
| Mae'r Bil Drafft a'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol: mwy cynhwysol, mwy atebol ac yn rhannu grym a chyfrifoldeb â chymunedau. Mae'r cynigion yn y Bil Drafft a'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig yn ddiwygiadau sylfaenol er mwyn sicrhau perfformiad cryf, democratiaeth gadarn, |

llywodraethu da a chyflawni ar gyfer cymunedau. Mae'r rhain yn ategu'r diwygiadau strwythurol a gaiff eu cyflawni trwy uno Awdurdodau Lleol.

Mae gwireddu'r weledigaeth hon yn galw am berthynas fwy effeithiol rhwng y rheiny sy'n llunio lleoedd ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys cyrff cydfuddiannol a chydweithredol a mathau eraill o fentrau cymdeithasol) a'r rheiny sy'n dibynnu arnynt, trwy ddemocratiaeth leol gryfach a gwaith craffu mwy effeithiol.

Mae'n bwysig nodi bod y Bil Drafft yn ceisio meithrin galluogrwydd a gallu ymysg Awdurdodau Lleol, trwy amrywiaeth o ddiwygiadau i strwythur a llywodraethu. Wrth wneud hynny, mae'n ceisio cryfhau'r ffordd mae Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau, a fydd yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg, ar gymunedau Cymraeg ac ar yr iaith Gymraeg. Bydd llawer rhagor o ganlyniadau'n cael eu penderfynu gan Awdurdodau Lleol hwythau, ac mae'n bwysig peidio ag achub y blaen ar y penderfyniadau hynny yma, gan y bydd yr effeithiau'n cael eu penderfynu maes o law. Yn hytrach, **mae'r Bil Drafft yn ceisio sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau lleol hynny ar y lefel leol fwyaf priodol.**

Er nad oes yn y Bil Drafft unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg na'r iaith Gymraeg, dylai'r darpariaethau fod o fudd i bob cymuned yng Nghymru. Nodir crynodeb o'r cynigion isod.

**Diwygiadau strwythurol i Awdurdodau Lleol**

- Caiff gallu a chydnerthedd Llywodraeth Leol eu gwella trwy uno a diwygio Awdurdodau Lleol. Mae'r Bil Drafft yn cynnig uno'r dau ddeg dau o Brif Awdurdodau Lleol presennol a chreu wyth neu naw Awdurdod Lleol newydd.

**Diwygiadau cyfansoddiadol – llywodraethu, bod yn agored, tryloywder, ymgysylltu**

- Rhoddir i Brif Awdurdodau Lleol a rhai Cynghorau Cymuned Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol, er mwyn caniatáu iddynt fod yn fwy arloesol yn y ffyrdd maent yn darparu gwasanaethau
- Bydd Pwyllgorau Ardal yn cael eu sefydlu i fod yn gyfrwng rhwng cymunedau lleol ac Awdurdodau Lleol
- Bydd rolau a chyfrifoldebau Aelodau Etholedig, gan gynnwys aelodau Cabinet, ac uwch swyddogion yn cael eu gwneud yn eglur yn y ddeddfwriaeth
- Bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith i wella amrywiaeth Aelodau Etholedig, fel eu bod yn cynrychioli'n well y cymunedau maent yn eu gwasanaethu
- Bydd trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i wneud cyfarfodydd Cyngor yn fwy hygyrch ac agored, gan gynnwys gofynion o ran gorfodaeth i ddarlledu cyfarfodydd Cyngor
- Rhoddir rôl gryfach i Aelodau Etholedig. Byddant yn arwain Pwyllgorau Ardal Cymunedol er mwyn gweithio gyda phobl leol i lunio eu cymunedau a gwasanaethau lleol, a bydd yn ofynnol iddynt baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad o flaenoriaethau ac amcanion; ac i wneud trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd.
- Bydd ystod o fesurau'n cael eu rhoi ar waith i gryfhau cyfranogiad y cyhoedd ac i wneud Awdurdodau Lleol yn fwy agored. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddatblygu a gweithredu strategaethau cyfranogiad y cyhoedd
- Bydd disgwyliadau cliriach yn cael eu nodi o ran y ffordd mae Aelodau Etholedig yn cyflawni eu dyletswyddau, a bydd achosion o berfformiad anfoddhaol yn cael eu hystyried gan

Bwyllgorau Safonau.

**Perfformiad a gwelliant**

- Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddangos cynllunio corfforaethol mwy cynhwysfawr, agored a thryloyw
- Bydd yn ofynnol i gyrff archwilio ac adolygu allanol gydweithio'n agosach, er mwyn sicrhau eu bod yn cael trosolwg mwy cynhwysfawr o berfformiad Awdurdod Lleol trwy drafodaethau 'pwyso a mesur'. Bydd hefyd yn ofynnol i'r cyrff hyn gydweithredu'n agosach â phwyllgorau craffu mewnol
- Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflawni proses hunanasesu drylwyr, gyda chymorth adolygiadau rheolaidd gan gymheiriaid
- Bydd rôl Pwyllgorau Archwilio'n cael ei chryfhau
- Bydd y broses i Weinidogion Cymru roi cymorth i Awdurdodau Lleol yn cael ei chryfhau.

**Cynghorau Tref a Chymuned**

- Bydd adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned yn cael ei gyflawni, gyda golwg ar roi newidiadau strwythurol ar waith er mwyn gwella gallu a galluogrwydd Cynghorau Cymuned
- Bydd cynllun o 'Gynghorau Cymuned â chymhwysedd' yn cael ei gyflwyno.

**Comisiwn Staff**

- Sefydlwyd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi 2015, i roi cyngor ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Mae'r Bil Drafft hwn yn cynnig nodi ei rôl a'i swyddogaethau mewn statud, er mwyn gwella ei statws a darparu amserlen ar gyfer ei waith.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae'r Bil Drafft a'r ddogfen ymgynghori gysylltiedig yn rhan o'r Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol, sy'n rhan o ymateb Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014. Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau ar y tri phapur gwyn a ragflaenodd y Bil Drafft hwn hefyd wedi dylanwadu ar yr opsiynau polisi.

Roedd Comisiwn Williams yn bendant bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn wynebu heriau difrifol a hirfaith. Byddant yn dal i deimlo effeithiau'r dirwasgiad a'r mesurau i arbed arian am flynyddoedd lawer. Ar yr un pryd, mae poblogaeth Cymru'n cynyddu ac yn heneiddio, ac mae disgwyliadau'r cyhoedd ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn uwch nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn creu pwysau difrifol - mae'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael i'w darparu.

Roedd Comisiwn Williams yn bendant bod yna amrywiadau annerbyniol o ran perfformiad lleol. Mae yna rai enghreifftiau da o berfformiad, ond mae angen diwygio. Mae ymyriadau diweddar gan Lywodraeth Cymru, arolygiadau ac adroddiadau archwilio'n tynnu sylw at yr angen i newid. Mae sefydliadau llai'n wynebu her fwy gan fod eu gallu a'u hyblygrwydd yn fwy cyfyngedig.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad Comisiwn Williams, o'r materion ac o'r opsiynau ar

gyfer newid, ond mae wedi pwysleisio na fydd uno'r 22 Awdurdodau Lleol presennol ar ei ben ei hun yn dod â newid o'r maint mae ei angen. Hefyd mae angen ailgynllunio mewnol trwyadl ar y ffordd mae Awdurdodau Lleol yn cynnal eu busnes, gwneud penderfyniadau a chael eu dal yn gyfrifol. Rhaid hefyd cael newid sylweddol yn eu perthynas â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Ystyriodd Comisiwn Williams opsiynau polisi ledled ei adroddiad a'i argymhellion terfynol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhain yn fras. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r argymhellion hyn fel cynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, ac wedi ymgynghori'n helaeth trwy dri Phapur Gwyn. At ei gilydd mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn wedi mynegi cefnogaeth i'r cynigion, ac wedi dylanwadu ar y gwaith o fireinio'r opsiynau polisi. Dyma rai o'r opsiynau a ystyriwyd, ond nad aethpwyd ar eu hôl yn y pen draw:

- Amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o uno ardaloedd Awdurdodau Lleol
- Terfynau ar gyfnodau aelodau etholedig ar Awdurdodau Lleol
- Rhai gofynion i Gynghorau Cymuned gael eu hystyried yn gymwys
- Codi cyfyngiadau ar allu swyddogion i sefyll mewn etholiadau yn eu Hawdurdod Lleol hwy.

Roedd yr ymgynghoriad diweddar ar y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn cynnwys cwestiynau ar effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Nid ymatebodd llawer o'r cyfranogwyr i'r cwestiynau hyn. Ymysg y rhai a nododd effeithiau ar y Gymraeg, roedd yr ymatebion yn tueddu i awgrymu na ddylid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg neu, ymysg y rhai a ymatebodd mewn ffordd gadarnhaol, y byddai'r cynigion bras ar gyfer Llywodraeth Leol fwy agored a chynrychioladol o fudd i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw at yr effaith y gallai gwahanol opsiynau o ran uno awdurdodau ei chael, yn arbennig ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu o ystyried y mater hwn fel rhan o'r broses uno. Pwysleisiodd y Comisiynydd hefyd bwysigrwydd deall effaith y ddeddfwriaeth ar hawliau siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned, nid yn unig y rheiny lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith.

Mae'n werth ailadrodd safbwynt polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Leol, hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a chefnogi'r rheiny sydd eisiau gweithio neu gynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r rheoliadau cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefn dyletswyddau a elwir Safonau'r Gymraeg i Lywodraeth Leol. Caiff y rhain eu gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau'n berthnasol i Awdurdodau Lleol yn gyffredinol a hefyd i'w pwyllgorau (gan gynnwys y Pwyllgorau Ardal arfaethedig). Byddant hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir trwy weithio mewn partneriaeth, ac i wasanaethau maent yn eu dirprwyo i'r trydydd sector, i'r sector preifat neu i gorff cyhoeddus arall.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?**

Chwe nod *Iaith fyw: iaith byw* yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu

hymwybyddiaeth o werth yr iaith

- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Bydd nodau cyffredinol y ddeddfwriaeth hon yn cynorthwyo Llywodraeth Leol i gyflawni ei hymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Mae gwella gallu a galluogrwydd Awdurdodau Lleol yn debygol o'u cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, yn arbennig yng ngoleuni'r pwysau ariannol a demograffig a nodir uchod. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r seilwaith i ddarparu gwasanaethau o'r fath i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg, gan gynnwys opsiynau digidol arloesol. Bydd agweddau penodol ar y Bil Drafft (megis y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i fod yn fwy arloesol wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau o'r fath.

Mae Awdurdodau mwy o faint a mwy galluog hefyd yn fwy tebygol o allu darparu cymorth rhagweithiol a gwneud defnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u systemau yn eu gweithleoedd, yn ogystal ag yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu.

Byddid yn gofalu, fodd bynnag, i sicrhau nad yw creu ardaloedd mwy yn erydu'r arferion presennol yn yr Awdurdodau Lleol hynny sy'n gwneud eu gwaith gweinyddol mewnol yn gyfan gwbl neu yn bennaf yn Gymraeg. Yn wir, beth bynnag fo'r arferion presennol ar draws Llywodraeth Leol yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru eisiau gweld cryfhau ac adeiladu ar arferion o'r fath. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i ymchwilio i mewn i'r pwnc hwn.

Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol feddu ar set fwy trylwyr o weithdrefnau llywodraethu corfforaethol a fydd yn cynorthwyo i sicrhau y cyflawnir eu hymrwymiadau o ran y Gymraeg, gan gynnwys cynhyrchu adroddiad corfforaethol blynyddol yn nodi sut orau y gallai'r Awdurdod Lleol gyflawni ei rwymedigaethau o ran y Gymraeg. Bydd hefyd yn ofynnol i'r cynllun corfforaethol hwn gael ei ystyried fel rhan o'r prosesau hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid a gyflwynir gan y Bil Drafft. Bydd yn ofynnol i Brif Weithredwyr ystyried sut y gall Awdurdod Lleol barhau i wella ei berfformiad, a allai gynnwys perfformiad o ran ymrwymiadau a dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Hefyd rhoddir i Bwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol rôl fwy i graffu ar y materion hyn a darparu sicrwydd yn eu cylch.

Mae'r Bil Drafft hefyd yn debygol o gefnogi sefyllfa'r Gymraeg mewn cymunedau: nid dim ond trwy wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ond trwy ei gynigion i sicrhau bod Llywodraeth Leol yn adlewyrchu'n well y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Mae Llywodraeth Leol sy'n agosach at gymunedau – trwy Aelodau Etholedig mwy amrywiol, Awdurdodau Lleol mwy agored a thryloyw, Cynghorau Cymuned wedi'u diwygio, Pwyllgorau Ardal, a bod yn ymatebol i 'geisiadau gwella' – yn debygol o gryfhau gallu siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Fel cyflogwyr mawr, mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan bwysig yn economïau'r ardaloedd lle saif eu pencadlysoedd a'u swyddfeydd eraill. Mewn rhannau Cymraeg o Gymru, mae bodolaeth lleoedd gwaith o'r fath yn darparu darn pwysig o'r jig-so yn yr economi leol sy'n rhoi cyfleoedd i'r bobl leol Cymraeg eu hiaith aros yn eu hardaloedd lleol neu ddychwelyd iddynt – rhywbeth sy'n

hanfodol bwysig i gynaliadwyedd yr iaith yn y cymunedau hynny yn y dyfodol. O'r herwydd, byddwn yn disgwyl i benderfyniadau ynghylch rheoli ystadau'r Awdurdodau mwy o faint ystyried yn llawn yr effeithiau posibl ar y Gymraeg.

Yn unol ag egwyddor sybsidiaredd, mae effeithiau llawn y diwygiadau hyn yn debygol o gael eu gwireddu trwy benderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Lleol. Bydd effeithiau'r penderfyniadau hyn yn cael eu harfarnu'n lleol maes o law.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae'r Gymraeg, cymunedau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith i gyd yn debygol o gael budd o nodau cyffredinol y Bil Drafft. Nod y diwygiadau yw sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn fwy galluog, yn fwy cynhwysol, yn fwy atebol ac yn rhannu mwy o rym a chyfrifoldeb gyda chymunedau. **Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'cymunedau' yw cymunedau buddiant yn ogystal â chymunedau daearyddol, ac felly mae'n cynnwys siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, nid yn unig y cymunedau hynny lle mai'r Gymraeg yw'r iaith fwyafrifol.** Dylai hyn sicrhau y gall Awdurdodau Lleol wasanaethu a chynrychioli'n well y rheiny sy'n siarad Cymraeg a darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac addysg yn well yn Gymraeg. Dylai'r cynigion hefyd gynorthwyo Awdurdodau Lleol i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac i fodloni'r gofynion sydd arnynt o dan Safonau'r Gymraeg i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys yn y gweithle.

Fodd bynnag, mae rhai cynigion hefyd yn debygol o gael rhai effeithiau penodol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Rhoddir crynodeb o'r rhain isod.

**1. Uno Awdurdodau Lleol**

Mae'r Bil Drafft yn cynnig uno'r 22 Awdurdod Lleol presennol yng Nghymru i ffurfio 8 neu 9 Awdurdod Lleol newydd.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch yr effeithiau y bydd uno ardaloedd Awdurdodau Lleol presennol i greu ardaloedd Awdurdodau Lleol mwy o faint yn eu cael ar y Gymraeg. Bydd yr Awdurdodau Lleol sydd newydd gael eu huno'n dal i fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan reoliadau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai angen ystyried y gallai rhai Awdurdodau Lleol fydd yn uno fod ar gamau gwahanol o ran eu harferion a'u huchelgeisiau presennol o ran defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithrediadau, hybu'r iaith a chadw cofnodion. Mae Gweinidogion Cymru'n bendant na ddylai unrhyw gynnydd gael ei golli wrth uno, er enghraifft, o ran gweithio dwyieithog. Lle mae arferion da'n bodoli eisoes, dylent gael eu gwarchod yn yr Awdurdodau Lleol mwy o faint a dylid achub ar bob cyfle i'r Awdurdodau Lleol newydd fod yn fwy uchelgeisiol. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi sefydliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen i hybu arfer da ar y materion hyn fel rhan o'r broses uno.

Cynigir sefydlu Pwyllgorau Pontio ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017, i ddechrau paratoi i uno'r 22 Awdurdodau Lleol presennol yn effeithiol, cyn i'r Awdurdodau Cysgodol ddod i rym ym mis Mai 2019. Bydd gan y Pwyllgorau Pontio ran bwysig i'w chwarae o ran dylanwadu ar arferion gwaith a pholisïau'r Awdurdodau Lleol yn y dyfodol. Bwriedir iddynt fod yn ddarostyngedig i

Safonau'r Gymraeg, a chaiff eu penderfyniadau eu harfarnu'n lleol.

Bydd dyletswydd ar Gomisiynydd y Gymraeg i fonitro Safonau'r Gymraeg, adrodd arnynt a'u gorfodi, yn ystod yr uno ac wedyn. Bydd hefyd rôl i Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus nodi arferion gorau o ran y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r gweithlu.

Er y bydd pob Awdurdod Lleol yn dal i fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, bu ystyriaethau penodol ynghylch y Gymraeg fel yr iaith weinyddol mewn sawl Awdurdod Lleol. Yn y gorllewin, mae Gweinidogion Cymru'n cynnig uno Sir Gâr, Ceredigion a Sir Penfro, ac ar hyn o bryd, mae'r Gymraeg wedi'i sefydlu'n fwy trylwyr fel iaith busnes yn Sir Gâr a Cheredigion nag yn Sir Penfro. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod hyn yn cynnig cyfle i arferion da ledu i ardal busnes fwy ar draws yr Awdurdod Lleol sydd wedi'i huno.

Mae dau opsiwn posibl o hyd o ran llun ardaloedd Awdurdodau Lleol yn y dyfodol yn y gogledd. Wrth benderfynu, un o'r ystyriaethau i Weinidogion Cymru yw'r effeithiau ar y Gymraeg fel iaith busnes. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio'r Gymraeg fel ei brif iaith busnes, ac awgrymwyd y gall uno Gwynedd ac Ynys Môn gynorthwyo i gynyddu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ar Ynys Môn. Ar yr un pryd, dadleuwyd hefyd y gallai gosod Conwy gyda Gwynedd ac Ynys Môn gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yng Nghonwy. Fodd bynnag, mae yna farn hefyd y byddai'r Gymraeg yn cael ei chefnogi'n ehangach trwy uno Conwy a Sir Ddinbych. Mae yna ystyriaethau tebyg ynghylch gosod Sir Ddinbych, boed gyda siroedd y Fflint a Wrecsam ar y ffin, neu gyda Chonwy, sy'n debycach iddi'n ieithyddol.

Gwahoddodd Gweinidogion Cymru sylwadau anffurfiol yn ystod haf 2015 ar lun Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol, gan ymgynghori'n ffurfiol ar y Bil Drafft yn yr hydref. Bydd yr effeithiau posibl ar y Gymraeg yn un o'r ystyriaethau allweddol i'r ymgynghoreion ac i Weinidogion Cymru.

At ei gilydd, mae Gweinidogion Cymru'n credu y dylai cryfhau gallu a galluogrwydd Awdurdodau Lleol gefnogi eu gallu i weithio'n ddwyieithog, ac i alluogi aelodau o'r staff sydd eisiau gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny. Mae uno Awdurdodau Lleol yn cynnig cyfle i rannu a chryfhau arferion gorau, a fyddai'n cael ei wireddu yn unol â phenderfyniadau a wnaed yn lleol.

**2. Amrywiaeth Aelodau Etholedig**

Mae'r Bil Drafft yn ceisio gwella amrywiaeth Aelodau Etholedig, fel eu bod yn cynrychioli'n well y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae mesurau i hybu hyn yn cynnwys gosod gofyniad ar Arweinydd y Cyngor i roi sylw dyledus i ganllawiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddethol Cabinet. Dylai hyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn adlewyrchu eu cymunedau cyfan yn well.

**3. Llywodraethu, perfformiad a gwelliant corfforaethol**

Mae'r Bil Drafft yn cynnig ystod o fesurau i sicrhau bod llywodraethu corfforaethol pob Awdurdod Lleol yn gyson drylwyr.

Mae'r Bil Drafft yn gosod gofyniad statudol ar bob Awdurdod Lleol i gynhyrchu a chyhoeddi cynllun corfforaethol. Caiff hwn ei ategu gan ofyniad i'r Awdurdod Lleol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn nodi ei berfformiad dros y flwyddyn flaenorol. Bydd y cynllun corfforaethol a'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys amcanion yr Awdurdod Lleol o ran lles, gan gynnwys amcanion yn ymwneud â'r Gymraeg,

fel y bwriadwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cynlluniau corfforaethol yn ymdrin â'r ffordd y darperir gwasanaethau ac â materion yn ymwneud â gweithrediadau, felly byddant yn lle priodol i ddangos cydymffurfiaeth â safonau newydd y Gymraeg. Bydd hyn yn annog Awdurdodau Lleol i gynnwys y Gymraeg yn eu busnes pob dydd ac i weithredu eu strategaethau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (yn unol â'r Safonau Hybu), a gall fod yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith.

Mae'r Bil Drafft hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau i gryfhau galluoedd Awdurdodau Lleol i ganfod a gwireddu cyfleoedd i wella. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau newydd o ran hunanasesu, adolygu gan gymheiriaid, a gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol. Mae'r Bil Drafft hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i gyrff adolygu allanol gyflawni adolygiadau 'pwyso a mesur' llai manwl rheolaidd o Awdurdodau Lleol, i roi trosolwg o'u llywodraethu a'u gwasanaethau yn gyfan. Dylai hyn gynorthwyo Awdurdodau Lleol i barhau i wella eu perfformiad, gan olygu, er enghraifft, ei bod yn fwy tebygol y caiff Safonau'r Gymraeg eu bodloni, a gwasanaethau o ansawdd da eu darparu yn Gymraeg. Mae'n fwy tebygol y caiff unrhyw ddiffygion eu canfod, a datrysiadau effeithiol eu rhoi ar waith. Unwaith eto, gallai'r darpariaethau hyn fod yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith.

**4. Bod yn agored, ymgysylltu a thryloywder**

Mae'r Bil Drafft yn ceisio sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored ac yn fwy cyfranogol. Mae'n gwneud hynny trwy ddyletswydd cyfranogiad ar Awdurdodau Lleol, a darpariaethau sy'n rhoi hawliau penodol i gymunedau gyfrannu at drafodaethau Cynghorau, ac i gymryd rhan mewn llywodraethu cymunedol. O dan y ddyletswydd cyfranogiad, bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol nodi sut maent yn bwriadu annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau Awdurdodau Lleol, a sut y gallant gyflwyno sylwadau cyn ac ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae hyn yn debygol o wella ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg, gan ei gwneud yn fwy tebygol y diwellir eu hanghenion yn effeithiol.

Bydd Awdurdodau Lleol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg wrth arfer y swyddogaeth hon. Felly bydd yn rhoi mwy o gyfle i siaradwyr Cymraeg gyflwyno sylwadau am benderfyniadau a allai effeithio ar y Gymraeg, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Hefyd, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarlledu cyfarfodydd Cyngor, gan ganiatáu i gymunedau Cymraeg, yn aml mewn ardaloedd gwledig, ddeall sut mae penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cael eu gwneud.

Yn ogystal, yn aml mae gan gyrff gwirfoddol a grwpiau cymunedau syniadau da ynghylch sut y gellid gwella'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r Bil yn cynnig y dylai cyrff cymunedol, gan gynnwys cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned, allu cyflwyno 'cais gwella' i'r Awdurdod Lleol. Byddai hyn yn galluogi cyrff cymunedol i drafod gyda'r Awdurdod Lleol sut y gellid cyflawni gwelliannau, a byddai'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi adroddiad yn dangos canlyniadau'r trafodaethau a'r penderfyniadau a wnaethpwyd. Byddai'r darpariaethau hyn yn caniatáu i gyrff cymunedol â diddordeb mewn gwasanaethau Cymraeg, neu yn anghenion siaradwyr Cymraeg, gael mwy o lais ynghylch sut y gallai Awdurdodau Lleol wella gwasanaethau Cymraeg, neu wasanaethau sy'n effeithio ar gymunedau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg.

Am y tro cyntaf, mae'r Bil Drafft yn cynnig ehangu cylch gwaith Pwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol i gynnwys tanberfformiad ymysg Aelodau Etholedig (yn ogystal â chamymddygiad). Bernir y bydd hyn

yn fwy tebygol o sicrhau y byddai gan gymunedau Cymraeg Aelod Etholedig effeithiol.

**5. Pwyllgorau Ardal**

Nod y Bil Drafft yw sefydlu fframwaith i ganiatáu ar gyfer mwy o rannu grym a chyfrifoldeb rhwng Awdurdodau Lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd hyn yn galluogi cymunedau i fynd y tu hwnt i gael clywed eu llais ac i fynd ati i geisio cymryd cyfrifoldeb am y newidiadau a'r gwelliannau y maent eisiau eu gweld yn eu cymuned.

Mae'r Bil Drafft yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu Pwyllgorau Ardal yn yr ardaloedd cymunedol a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y Pwyllgorau Ardal yn cael eu harwain gan yr Aelodau Etholedig dros yr ardal gymunedol, a byddant yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned (trwy Gynghorau Cymuned a'r sector gwirfoddol) ar sail gyfartal. Bydd y Pwyllgorau Ardal yn sicrhau y caiff buddiannau cymunedau eu cynrychioli i'r Cyngor, ac yr ymdrinnir â blaenoriaethau lleol trwy ddylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn yr ardal leol. Byddant yn cryfhau'r cysylltiad rhwng cymunedau ac Awdurdodau Lleol mwy o faint, a rhwng cymunedau a Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i'r ardal. Bydd gan Bwyllgorau Ardal rôl wrth hwyluso gwaith yr Awdurdod Lleol o arfer y ddyletswydd cyfranogiad sydd arno, a nodir yn y Bil Drafft hwn. Bydd y darpariaethau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol wrth gynnal cymunedau mwy cynaliadwy a chydnerth mewn ardaloedd Cymraeg a gwneud Awdurdodau Lleol yn fwy ymatebol i anghenion siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned yng Nghymru. Yn wir, mae'n bosibl y bydd Awdurdodau Lleol yn barnu bod cyfle i Fentrau Iaith ddod yn aelod o Bwyllgorau Ardal mewn cymunedau penodol.

**6. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaethau i ymestyn pŵer cymhwysedd cyffredinol i bob Prif Gyngor ac i Gynghorau Cymuned â chymhwysedd. Cynghorau Cymuned â chymhwysedd fydd y rheiny sydd ag o leiaf dau draean o aelodau etholedig, clerc cymwys, a threfniadau cadarn o ran llywodraethu ariannol.

O fewn rhai cyfyngiadau, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhyddhau Awdurdodau Lleol o'r angen i ganfod pŵer penodol i wneud pethau mewn deddfwriaeth. Mae'n eu galluogi i wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud yn gyffredinol. Mae'r pŵer wedi cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr, er enghraifft, i redeg cynlluniau indemniad morgais i gynorthwyo pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf, mewn partneriaeth â chyrff benthyca preifat a chymdeithasau tai. Gallai Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i weithredu i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn ffyrdd nad ydynt wedi'u hawdurdodi i wneud ar hyn o bryd, ond lle Cynghorau unigol fydd penderfynu sut maent eisiau arfer y pŵer. Yn achos Cynghorau Cymuned, cyfyngedig iawn ar hyn o bryd yw eu sail gyfreithiol dros weithredu. Bydd y pŵer cyffredinol yn rhoi iddynt ryddid helaeth i weithredu mewn ffyrdd newydd wrth ymateb i ofalon a phryderon eu cymunedau.

Lle defnyddir y pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau cyflenwi amgen ar ran Awdurdod Lleol, er enghraifft rhai sy'n cynnwys cwmnïau cydweithredol, cyrff cydfuddiannol neu bartneriaid eraill, mae'n werth nodi bod y swyddogaeth ddirprwyedig yn dal i fod yn un o swyddogaethau'r Awdurdod Lleol ac felly'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw

sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio gwasanaethau (y mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol iddynt) yn Gymraeg os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gorff arall ar ran yr Awdurdod, a chyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau y gorfodir y safonau hynny.

**7. Cryfhau Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae'r Bil Drafft yn cynnig sawl mesur i gryfhau Cynghorau Tref a Chymuned.

Bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned, gyda'r nod o grynhoi Cynghorau Cymuned llai o dan Gyngor Cymuned Cyffredin. Diben y diwygiadau hyn yw cryfhau gallu a galluogrwydd Cynghorau Cymuned fel y gallant gymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith o reoli cyfleusterau a darparu gwasanaethau yn eu hardal leol. Nid oes modd cyflawni'r uchelgais hwn gyda Chynghorau Cymuned sy'n rhy fach i allu cyflogi clerc cymwys a gweithwyr cyflogedig eraill.

**Bydd Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gymryd i ystyriaeth nodweddion ieithyddol y cymunedau sy'n cael eu cydgrynhoi a'r iaith mae'r Cynghorau hynny'n gweithio ynddi'n bennaf.** Gan mai'r bwriad yw y bydd gan Gynghorau Cymuned mwy o faint rôl fwy gweithredol ac y byddant yn ymwneud ag amrywiaeth fwy o weithgareddau nag ar hyn o bryd, mae'n bwysicach byth bod Cynghorau Cymuned yn gwneud mwy i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau y darperir gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr, gan gynnwys lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y gymuned.

Mae'r Bil Drafft hefyd yn cynnig cyflwyno safonau cymhwysedd i Gynghorau Cymuned, er mwyn gwella eu llywodraethu a'u hatebolrwydd ariannol. Er mwyn i Gynghorau Cymuned gymryd cyfrifoldeb yn effeithiol am fwy o asedau cymunedol a gwasanaethau lleol, mae arnynt angen yr adnoddau i gyflogi clerc a swyddog datblygu cymunedol, ac i allu buddsoddi mewn cyfleusterau neu wasanaethau lleol. Barn Gweinidogion Cymru, felly, yw y bydd gan Gynghorau Cyffredin sy'n cynnwys dwy neu ragor o gymunedau cysylltiedig fwy o adnoddau i fynd i'r afael â'r bygythiadau y mae cymunedau llai yn eu hwynebu ac i gryfhau eu cydnerthedd yn ystod cyfnod o bwysau ariannol a newid demograffig. Mae hyn yn debygol o fod yn fanteisiol i bob cymuned Gymraeg, gan y caiff penderfyniadau eu gwneud yn agosach at gymunedau a'u bod yn fwy tebygol o fod o fudd iddynt. Gallai hyn fod o fudd arbennig i siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith, gan fod Cynghorau Cymuned mwy effeithiol a chadarn yn fwy tebygol o allu diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn effeithiol.

Byddai Cynghorau Cymuned â chymhwysedd hefyd yn cael y pŵer cymhwysedd cyffredinol (gweler uchod), gan roi iddynt gryn dipyn mwy o ryddid i weithredu mewn modd arloesol er budd pennaf eu cymunedau.

**8. Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r Bil Drafft yn cynnig rhoi statws statudol i Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel rhan o'i gylch gwaith, sef cynghori Gweinidogion Cymru ar amrywiaeth fawr o faterion yn ymwneud â gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, mae'r Comisiwn Staff eisoes yn chwarae rhan wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymysg gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus. Un o elfennau allweddol gwaith y Comisiwn Staff yw canfod arferion gorau o ran gweithio dwyieithog. Mae'n ofynnol i un Comisiynydd

| |
|---|
| o leiaf fod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, ac mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud yn glir y disgwylir i bob Comisiynydd ddangos empathi at y Gymraeg. Bydd y Comisiwn yn parhau i chwarae'r rhan bwysig hon drwy gydol cyfnod uno Awdurdodau Lleol.<br><br>Mae nodi rôl a swyddogaeth y Comisiwn Staff mewn deddfwriaeth yn debygol o godi ei statws. Mae hyn yn debygol o gryfhau unrhyw gyngor neu gyfarwyddyd y bydd yn ei gyhoeddi, gan gynnwys ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn, ynghyd â'r parhauster a roddir gan Gomisiwn Staff statudol, yn debygol o roi mwy o sicrwydd i weithluoedd Cymraeg eu hiaith ar draws y sector cyhoeddus.<br><br>Bydd holl gyfarwyddyd y Comisiwn Staff yn cael ei arfarnu'n llawn yn y dyfodol, ac ni ddylid achub y blaen arno yma. Er hynny, byddai Comisiwn Staff statudol yn gallu cefnogi safle'r Gymraeg fel iaith busnes mewn Awdurdodau Lleol, a helpu i sicrhau y defnyddir arferion gorau ar draws Awdurdodau Lleol sy'n uno. |
| **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?** |
| Mae pob siaradwr a dysgwr Cymraeg yn rhanddeiliaid, lle bynnag maent yn byw neu'n gweithio yng Nghymru. Mae'r rhanddeiliaid eraill mae hyn yn effeithio arnynt yn uniongyrchol yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned, Aelodau Etholedig ac uwch swyddogion.<br><br>Mae siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg wedi cael eu cynnwys drwy gydol cyfnod datblygu'r cynigion. Cafodd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* ymatebion gan amrywiaeth fawr o sefydliadau a llawer iawn o'r cyhoedd, ac roedd llawer ohonynt yn Gymraeg. Gofynnodd yr ymgynghoriad gwestiynau penodol am effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru, oedd yn rhoi cyfle i fynegi barn gan gynnwys effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg. Hefyd mae Gweinidogion Cymru wedi trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Croesewir cyfraniadau o gymunedau Cymraeg unwaith eto yn ystod yr ymgynghoriad hwn ar y Bil Drafft. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Amh. |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?** e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
| Amh.<br><br>Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft, caiff Asesiad arall o'r Effaith ar y Gymraeg ei gyhoeddi wrth i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. |
| **CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU** |

| **<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u>**<br>**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.** |
|---|
| **Effeithiau cadarnhaol:** |
| **1. Uno Awdurdodau Lleol**<br>Mae'r Bil Drafft yn cynnig uno'r 22 Awdurdod Lleol presennol yng Nghymru i ffurfio 8 neu 9 Awdurdod Lleol newydd, er mwyn cryfhau eu galluogrwydd a'u gallu. Bydd yr Awdurdodau Lleol sydd newydd gael eu huno'n dal i fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ac mae hyn yn cynnig cyfle i arferion gorau gael eu cryfhau a'u rhannu ymysg Awdurdodau Lleol. Mae Awdurdodau Lleol mwy o faint a mwy cydnerth yn debygol o fod mewn sefyllfa well i gyflawni eu hymrwymiadau i'r Gymraeg yn effeithiol, yn arbennig yng ngoleuni'r heriau demograffig ac ariannol maent yn eu hwynebu.<br>**SGÔR EFFAITH 12 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 4)**<br><br>**2. Amrywiaeth Aelodau Etholedig**<br>Mae'r Bil Drafft yn cynnig ystod o fesurau i wella amrywiaeth Aelodau Etholedig, fel eu bod yn cynrychioli'n well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gallai hyn wella cynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg, gydag effeithiau cadarnhaol ar y penderfyniadau a wneir sy'n ymwneud â'r Gymraeg.<br>**SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 2)**<br><br>**3. Llywodraethu, perfformiad a gwelliant corfforaethol**<br><br>Mae'r Bil Drafft yn cynnig ystod o fesurau i wella llywodraethu a pherfformiad corfforaethol Awdurdodau Lleol, gan eu galluogi i weithredu orau eu strategaethau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bernir bod Awdurdodau Lleol mwy cadarn yn fwy tebygol o allu gwireddu cyfleoedd i wella'r ffordd y maent yn cyflawni ymrwymiadau o ran y Gymraeg, a fydd o fudd arbennig mewn ardaloedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith.<br>**SGÔR EFFAITH 9 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 3)**<br><br>**4. Bod yn agored, ymgysylltu a thryloywder**<br>Mae'r Bil Drafft yn ceisio sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored ac yn fwy cyfranogol. Mae'n cynnig cyflwyno mesurau i sicrhau y byddir yn fwy agored ac y bydd mwy o dryloywder; bernir y byddai hyn yn dod â Llywodraeth Leol yn agosach at siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg, fel y byddai penderfyniadau'n fwy tebygol o gael eu gwneud er eu budd hwy. Byddai cyfleoedd ffurfiol i gyrff gwirfoddol a grwpiau cymunedol gyflwyno 'ceisiadau gwella' i Awdurdodau Lleol yn eu galluogi i gael mwy o lais ynghylch sut y gallai Awdurdodau Lleol wella gwasanaethau Cymraeg, neu wasanaethau sy'n effeithio ar gymunedau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg. Byddai cymunedau'n cael budd o gael eu cynnwys yn fwy uniongyrchol ac yn agosach yn y gwaith o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.<br>**SGÔR EFFAITH 16 (Effaith: 4, Tebygolrwydd: 4)**<br><br>**5. Pwyllgorau Ardal**<br>Nod y Bil Drafft yw sefydlu fframwaith sy'n caniatáu ar gyfer mwy o rannu grym a chyfrifoldeb rhwng Awdurdodau Lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd hyn yn galluogi cymunedau, gan gynnwys cymunedau Cymraeg,i gymryd rôl yn nodi blaenoriaethau ac amcanion eu hardal a'u cyflwyno i'r Cyngor Sir i ddylanwadu ar benderfyniadau a chyllideb. . Un o nodau'r Bil yw gwneud cymunedau'n fwy cydnerth a hyfyw. |

**SGÔR EFFAITH 16 (Effaith: 4, Tebygolrwydd: 4)**

6. **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Mae'r Bil Drafft yn cynnig ymestyn pŵer cymhwysedd cyffredinol i bob Prif Awdurdod Lleol ac i Gynghorau Cymuned â chymhwysedd, a thrwy hynny galluogi Llywodraeth Leol i fod yn fwy arloesol yn y ffyrdd mae'n darparu gwasanaethau. Byddai hyn yn cynnig ystod fwy o opsiynau i weithredu i hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Lle defnyddir y pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau cyflenwi amgen ar ran Awdurdod Lleol, mae Safonau'r Gymraeg yn dal i fod yn berthnasol i'r swyddogaeth honno.

**SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 2, Tebygolrwydd: 3)**

7. **Cryfhau Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio, cryfhau a grymuso'r sector Cynghorau Cymuned. Cynhelir adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned, gyda golwg ar grynhoi cymunedau llai o dan Gynghorau Cymuned Cyffredin. Byddai'r cynnig i gyflwyno safonau cymhwysedd hefyd yn gwella llywodraethu, atebolrwydd ariannol a phroffesiynoldeb Cynghorau Cymuned. Byddai Cynghorau Cymuned â chymhwysedd yn cael mwy o ryddid i weithredu er budd pennaf eu cymunedau trwy'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Bernir bod cryfhau Cynghorau Cymuned yn debygol o sicrhau bod yr haen hon o lywodraeth yn gadarn, yn effeithiol ac yn uchelgeisiol, sy'n fwy tebygol o wasanaethu a chynrychioli siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg yn effeithiol.

**SGÔR EFFAITH 9 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 3)**

8. **Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r Bil Drafft yn cynnig rhoi statws statudol i'r Comisiwn Staff. Er bod y Comisiwn Staff eisoes yn chwarae rhan wrth ganfod arferion gorau o ran gweithio yn y Gymraeg fel rhan o'i waith o ystyried amrywiaeth fawr o faterion yn ymwneud â'r gweithlu, mae rhoi statws statudol i'r Comisiwn yn debygol o gryfhau unrhyw gyngor y bydd yn ei gyhoeddi, a rhoi sicrwydd i weithluoedd trwy amserlen glir i'w waith. Mae hefyd yn debygol o allu chwarae rhan fwy arwyddocaol drwy gydol cyfnod uno Awdurdodau Lleol.

**SGÔR EFFAITH 12 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 4)**

### Effeithiau negyddol:

Ni nodir unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru'n cydnabod ei bod yn bwysig cymryd gofal i sicrhau nad yw creu ardaloedd Awdurdodau Lleol mwy o faint yn erydu'r arferion presennol yn yr Awdurdodau Lleol hynny sy'n gwneud eu gwaith gweinyddol mewnol yn gyfan gwbl neu yn bennaf yn Gymraeg. Mae'n bwysig cryfhau'r arferion presennol ar draws Llywodraeth Leol ac adeiladu arnynt.

### Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Mae'r holl effeithiau a nodir uchod yn rhoi cyfleoedd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

### Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

| | | |
|---|---|---|
| Nid oes unrhyw ddadansoddiad arall wedi cael ei wneud ar y cam hwn.<br><br>Caiff Asesiad arall o'r Effaith ar y Gymraeg ei gyhoeddi pan gaiff Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. | | |
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?** | Cadarnhaol: ☒<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ | |
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |
| ***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,* atebwch y canlynol:**<br>**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg?**<br>**Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:** | | |
| | | |
| **Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?** | | |
| Mae'r Bil Drafft hwn yn cael ei gyhoeddi i ymgynghori arno. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am ystyriaeth o'r agweddau ymarferol ar weithredu darpariaethau'r Bil Drafft a'r ddogfen ymgynghori gysylltiedig. Bydd rhanddeiliaid yn rhydd i nodi a thynnu sylw at effeithiau posibl y cynigion ar y Gymraeg, ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru. Bydd yr ymatebion yn dod yn rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir gan Weinidog Cymru i fireinio'r darpariaethau, ac yn dylanwadu ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) wrth iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. | | |
| **CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO** | | |
| **Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?** | | |
| Fel y nodir uchod, ar ôl yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol,* mae amrywiaeth o ystyriaethau wedi cael eu codi gan randdeiliaid Cymraeg. Mae Gweinidogion Cymru'n derbyn pwysigrwydd yr ystyriaethau hyn, ac wedi ystyried yr adborth hwn yn ofalus, ynghyd â thrafodaethau mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Asesiad diwygiedig hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ceisio ymdrin â'r pryderon hyn, ac esbonio safbwyntiau Gweinidogion Cymru. Ceisir rhagor o farn yn yr ymgynghoriad hwn ar y Bil Drafft. | | |

| |
|---|
| Bydd Asesiad arall o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gwblhau i gyd-fynd â Bil Llywodraeth Leol (Cymru) wrth iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymdrin ag unrhyw faterion a godir yn ystod yr ymgynghoriad hwn, a bydd yn asesu effeithiau unrhyw newidiadau polisi arfaethedig. |
| **Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?** |
| Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i fonitro effeithiau'r diwygiadau arfaethedig yn fanwl wrth iddynt gael eu gweithredu. Bydd y gwaith monitro'n cael ei wneud fel rhan o raglen ehangach Diwygio Llywodraeth Leol, gyda mewnbwn gan Gomisiynydd y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill. |
| **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?** |
| Bydd y gwaith o fonitro effeithiau'r darpariaethau hyn yn canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Gwaith y Pwyllgorau Pontio o ran y Gymraeg a chymunedau Cymraeg<br>• Cyngor a darperir gan y grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried effaith yr uno ar yr iaith Gymraeg<br>• Adroddiadau a chyngor a gynhyrchir gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Adroddiadau Comisiynydd y Gymraeg ar y ffordd mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cyn ac yn ystod eu huno a'u diwygio.<br><br>Bydd canlyniadau'r gwaith monitro hwn yn cael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu gwybodaeth ar gyfer eu deialog parhaus, ac i wella ansawdd gwasanaethau yn y Gymraeg. |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| |

**4. Datganiad**

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>***Dileer fel y bo'n briodol*:**<br><br>***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
| Enw: |
| |
| Adran: Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |

| |
|---|
| Dyddiad(au): |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiadau adolygu: |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad |
| | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |